



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2009 Rhif 2705 (Cy.224)**

**2009 No. 2705 (W.224)**

**BWYD, CYMRU**

**FOOD, WALES**

Rheoliadau Labelu Bwyd  
(Gwybodaeth Faethol) (Cymru)  
2009

The Food Labelling (Nutrition  
Information) (Wales) Regulations  
2009

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Labelu Bwyd 1996 ("y prif Reoliadau") i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru. Mae'r prif Reoliadau yn rhychwantu Prydain Fawr gyfan.

1. These Regulations further amend the Food Labelling Regulations 1996 ("the principal Regulations") in so far as they apply in relation to Wales. The principal Regulations extend to the whole of Great Britain.

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu yng Nghymru Gyfarwyddeb y Comisiwn 2008/100/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 90/496/EEC am labeli maeth ar gyfer deunyddiau bwyd o ran lwfansau dyddiol a argymhellir, ffactorau trosi ynni a diffiniadau (OJ Rhif L285, 29.10.2008, t.9) ("Cyfarwyddeb y Comisiwn").

2. These Regulations implement in Wales Commission Directive 2008/100/EC amending Council Directive 90/496/EEC on nutrition labelling for foodstuffs as regards recommended daily allowances, energy conversion factors and definitions (OJ No. L285, 29.10.2008, p.9) ("the Commission Directive").

3. Mae'r Rheoliadau yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn drwy ddiwygio'r prif Reoliadau yn y fath fodd ag i wneud y canlynol—

3. The Regulations implement the Commission Directive by amending the principal Regulations so as to—

- (a) cynnwys diffiniad o "fibre" (*rheoliad 2(2)*);
- (b) diwygio'r rhestrau o fitaminau a mwynau y caniateir gwneud honiadau maeth amdanynt, o ran y sylweddau sydd wedi'u cynnwys a'r lwfansau dyddiol a argymhellir (*rheoliad 2(3) ac Atodlenni 1 a 2*);
- (c) darparu ffactorau trosi ar gyfer cyfrifo gwerth ynni ffibr ac erythritol (*rheoliad 2(4)*); ac
- (ch) darparu ar gyfer cyfnod trosiannol i gyflwyno ynddo y darpariaethau newydd fesul cam (*rheoliad 3*).

- (a) include a definition of "fibre" (*regulation 2(2)*);
- (b) amend the lists of vitamins and minerals in respect of which nutrition claims may be made, both as regards the substances included and the recommended daily allowances (*regulation 2(3) and Schedules 1 & 2*);
- (c) provide conversion factors for calculating the energy value of fibre and erythritol (*regulation 2(4)*); and
- (d) provide for a transitional period for the phasing in of the new provisions (*regulation 3*).

4. Mae asesiad effaith rheoleiddiol llawn o effaith yr offeryn hwn ar gostau busnes ar gael oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Tŷ Southgate, Caerdydd CF10 1EW.

4. A full regulatory impact assessment of the effect that this instrument will have on the costs of business is available from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Cardiff CF10 1EW.

**2009 Rhif 2705 (Cy.224)**

**BWYD, CYMRU**

**Rheoliadau Labelu Bwyd  
(Gwybodaeth Faethol) (Cymru)  
2009**

<i>Gwnaed</i>	<i>4 Hydref 2009</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	<i>6 Hydref 2009</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>30 Hydref 2009</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e), 17(1), (26)(1)(a) ac 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd iddynt gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra'r oedd y Rheoliadau hyn yn cael eu llunio a'u gwerthuso.

- 
- (1) 1990 p.16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn ôl eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990.
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) ac Atodlen 11, paragraff 30 iddi.
- (3) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, p.3).

**2009 No. 2705 (W.224)**

**FOOD, WALES**

**The Food Labelling (Nutrition  
Information) (Wales) Regulations  
2009**

<i>Made</i>	<i>4 October 2009</i>
<i>Laid before the National Assembly for Wales</i>	<i>6 October 2009</i>
<i>Coming into force</i>	<i>30 October 2009</i>

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 16(1)(e), 17(1), 26(1)(a) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1), and now vested in them(2).

In accordance with section 48(4A) of that Act, they have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(3), there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

- 
- (1) 1990 c.16. Section 1(1) and (2) (definition of "food") was substituted by S.I. 2004/2990. Sections 17 and 48 were amended by paragraphs 12 and 21 respectively of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (1999 c.28), ("the 1999Act"). Section 48 was also amended by S.I. 2004/2990. Section 53(2) was amended by paragraph 19 of Schedule 16 to the Deregulation and Contracting Out Act 1994 (1994 c.40), Schedule 6 to the 1999 Act and S.I. 2004/2990.
- (2) Functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). Those functions were transferred to Welsh Ministers by section 162 of, and Schedule 11, paragraph 30 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).
- (3) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Commission Regulation (EC) No. 575/2006 (OJ No. L100, 8.4.2006, p.3).

## Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Bwyd (Gwybodaeth Faethol) (Cymru) 2009, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 30 Hydref 2009.

## Diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996

2.–(1) Mae Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(1) wedi'u diwygio'n unol â pharagraffau (2) i (4) a rheoliad 3.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)–

(a) yn y diffiniad o Gyfarwyddeb 90/496, ar ôl y geiriau "Commission Directive 2003/120/EC" mewnosoder "and Commission Directive 2008/100/EC"; a

(b) ar ôl y diffiniad o "fat" mewnosoder y canlynol–

""fibre", in the context of nutrition labelling, means carbohydrate polymers with three or more monomeric units, which are neither digested nor absorbed in the human small intestine and belong to the following categories:

- edible carbohydrate polymers naturally occurring in the food as consumed;
- edible carbohydrate polymers which have been obtained from food raw material by physical, enzymatic or chemical means and which have a beneficial physiological effect demonstrated by generally accepted scientific evidence; or
- edible synthetic carbohydrate polymers which have a beneficial physiological effect demonstrated by generally accepted scientific evidence;".

(3) Yn Atodlen 6, Rhan II–

(a) yn lle'r cofnodion yn Nhabl A (fitaminau y caniateir i honiadau gael eu gwneud amdanynt) rhodder y cofnodion a welir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn; a

(b) yn lle'r cofnodion yn Nhabl B (mwynau y caniateir i honiadau gael eu gwneud amdanynt) rhodder y cofnodion a welir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

## Title, application and commencement

1. These Regulations are called the Food Labelling (Nutrition Information) (Wales) Regulations 2009, apply in relation to Wales and come into force on 30 October 2009.

## Amendment of the Food Labelling Regulations 1996

2.–(1) The Food Labelling Regulations 1996(1) are amended in accordance with paragraphs (2) to (4) and regulation 3.

(2) In regulation 2(1) (interpretation) –

(a) in the definition of Directive 90/496 after the words "Commission Directive 2003/120/EC" insert "and Commission Directive 2008/100/EC"; and

(b) after the definition of "fat" insert the following–

""fibre", in the context of nutrition labelling, means carbohydrate polymers with three or more monomeric units, which are neither digested nor absorbed in the human small intestine and belong to the following categories:

- edible carbohydrate polymers naturally occurring in the food as consumed;
- edible carbohydrate polymers which have been obtained from food raw material by physical, enzymatic or chemical means and which have a beneficial physiological effect demonstrated by generally accepted scientific evidence; or
- edible synthetic carbohydrate polymers which have a beneficial physiological effect demonstrated by generally accepted scientific evidence;".

(3) In Schedule 6, Part II–

(a) as Table A (vitamins in respect of which claims may be made) substitute the entries set out in Schedule 1 to these Regulations; and

(b) as Table B (minerals in respect of which claims may be made) substitute the entries set out in Schedule 2 to these Regulations.

(1) O.S. 1996/1499, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2008/1268 (Cy.128). Diwygiwyd y diffiniad o Gyfarwyddeb 90/496 a pharagraff 5 Rhan I o Atodlen 7 ill dau o'r blaen o ran Cymru gan O.S. 2004/2558 (Cy.229).

(1) S.I. 1996/1499, as last amended by S.I. 2008/1268 (W.128). The definition of Directive 90/496 and paragraph 5 of Part I of Schedule 7 were both previously amended in relation to Wales by S.I. 2004/2558 (W.229).

- (4) Yn Atodlen 7, Rhan I, paragraff 5–
- (a) ar ddiwedd is-baragraff (g), yn lle'r atalnod llawn, rhodder hanner colon; a
  - (b) ar ôl is-baragraff (g), ychwaneger yr is-baragraffau a ganlyn–
    - "(h)1 gram of fibre is deemed to contribute 8kJ (2 kcal);
    - (i) 1 gram of erythritol is deemed to contribute 0kJ (0kcal)."

### **Darpariaeth drosiannol**

3. Yn rheoliad 50 (darpariaeth drosiannol), ar ôl paragraff (15) ychwaneger y canlynol fel paragraff (16)–

"(16) In any proceedings for an offence under regulation 44(1)(b), it is a defence to prove that–

- (a) the food concerned–
  - (i) if sold, was sold before 31 October 2012, and
  - (ii) if advertised for sale, was advertised for sale before 31 October 2012 but not on or after that date; and
- (b) the matters constituting the alleged offence would not have constituted an offence under these Regulations if the amendments made by regulation 2 of the Food Labelling (Nutrition Information) (Wales) Regulations 2009(1) had not been in operation when the food was sold."

- (4) In Schedule 7, Part I, paragraph 5 –
- (a) at the end of sub-paragraph (g) for the full stop substitute a semi-colon; and
  - (b) after sub-paragraph (g) add the following sub-paragraphs–
    - "(h)1 gram of fibre is deemed to contribute 8kJ (2 kcal);
    - (i) 1 gram of erythritol is deemed to contribute 0kJ (0kcal)."

### **Transitional provision**

3. In regulation 50 (transitional provision), after paragraph (15) add the following as paragraph (16) –

"(16) In any proceedings for an offence under regulation 44(1)(b) it is a defence to prove that –

- (a) the food concerned–
  - (i) if sold, was sold before the 31 October 2012, and
  - (ii) if advertised for sale, was advertised for sale before 31 October 2012 but not on or after that date; and
- (b) the matters constituting the alleged offence would not have constituted an offence under these Regulations if the amendments made by regulation 2 of the Food Labelling (Nutrition Information) (Wales) Regulations 2009(1) had not been in operation when the food was sold."

*Gwenda Thomas*

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

4 Hydref 2009

Deputy Minister for Social Services, under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

4 October 2009

ATODLEN 1

Rheoliad 2(3)(a)

Tabl o'r cofnodion i'w rhoi yn lle'r cofnodion presennol yn Nhabl A (fitaminau y caniateir i honiadau gael eu gwneud amdanynt) yn Atodlen 6, Rhan II, i Reoliadau Labelu Bwyd 1996

<i>Column 1</i> <i>Vitamin</i>	<i>Column 2</i> <i>Recommended Daily Allowance</i>
Vitamin A	800 µg
Vitamin D	5 µg
Vitamin E	12 mg
Vitamin K	75 µg
Vitamin C	80 mg
Thiamin	1.1 mg
Riboflavin	1.4 mg
Niacin	16 mg
Vitamin B6	1.4 mg
Folic acid	200 µg
Vitamin B12	2.5 µg
Biotin	50 µg
Pantothenic acid	6 mg

SCHEDULE 1

Regulation 2(3)(a)

Table of entries to be substituted in Table A (vitamins in respect of which claims may be made) in Schedule 6, Part II, to the Food Labelling Regulations 1996

<i>Column 1</i> <i>Vitamin</i>	<i>Column 2</i> <i>Recommended Daily Allowance</i>
Vitamin A	800 µg
Vitamin D	5 µg
Vitamin E	12 mg
Vitamin K	75 µg
Vitamin C	80 mg
Thiamin	1.1 mg
Riboflavin	1.4 mg
Niacin	16 mg
Vitamin B6	1.4 mg
Folic acid	200 µg
Vitamin B12	2.5 µg
Biotin	50 µg
Pantothenic acid	6 mg

## ATODLEN 2

Rheoliad 2(3)(b)

Tabl o'r cofnodion i'w rhoi yn lle'r cofnodion presennol yn Nhabl B (mwynau y caniateir i honiadau gael eu gwneud amdanynt) yn Atodlen 6, Rhan II, i Reoliadau Labelu Bwyd 1996

<i>Column 1</i>	<i>Column 2</i>
<i>Vitamin</i>	<i>Recommended Daily Allowance</i>
Potassium	200 mg
Chloride	800 mg
Calcium	800 mg
Phosphorus	700 mg
Magnesium	375 mg
Iron	14 mg
Zinc	10 mg
Copper	1 mg
Manganese	2 mg
Fluoride	3.5 mg
Selenium	55 µg
Chromium	40 µg
Molybdenum	50 µg
Iodine	150 µg

©© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## SCHEDULE 2

Regulation 2(3)(b)

Table of entries to be substituted in Table B (minerals in respect of which claims may be made) in Schedule 6, Part II, to the Food Labelling Regulations 1996

<i>Column 1</i>	<i>Column 2</i>
<i>Vitamin</i>	<i>Recommended Daily Allowance</i>
Potassium	200 mg
Chloride	800 mg
Calcium	800 mg
Phosphorus	700 mg
Magnesium	375 mg
Iron	14 mg
Zinc	10 mg
Copper	1 mg
Manganese	2 mg
Fluoride	3.5 mg
Selenium	55 µg
Chromium	40 µg
Molybdenum	50 µg
Iodine	150 µg

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2009 Rhif 2705 (Cy.224)**

**BWYD, CYMRU**

Rheoliadau Labelu Bwyd  
(Gwybodaeth Faethol) (Cymru)  
2009

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2009 No. 2705 (W.224)**

**FOOD, WALES**

The Food Labelling (Nutrition  
Information) (Wales) Regulations  
2009